Ysgol Gynradd Llanilar

Gwell gwneud eich gorau na bod yn orau

Annwyl Riant / Dear Parent,

Gyda thristwch hoffwn rannu'r newyddion am farwolaeth ffrind agos iawn i Ysgol Llanilar, sef Mr Rowland Jones. Bu Mr Jones yn lywodraethwr yn yr ysgol am 32 o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod yma bu'n gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol am 25 o flynyddoedd a chyd-weithiodd gyda 7 pennaeth a degau o lywodraethwyr. Bu hefyd yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llanafan am 22 o flynyddoedd. Cafodd ei waith fel llywodraethwr yn Sir Ceredigion ei gydnabod pan gafodd wahoddiad i fynychu derbyniad ym Mhalas Buckingham.

It is with sadness that we share the news of the passing of a very close friend of Ysgol Llanilar, Mr Rowland Jones. Mr Jones was a governor at the school for 32 years. During this time he chaired the school Governors for 25 years and worked with 7 headteachers and tens of governors. He was also Chairman of the Governors of Llanafan School for 22 years. His work as a governor in the County of Ceredigion was recognized when he was invited to a reception at Buckingham Palace

Ym mis Chwefror, cyflwynodd Anya Ellis a Xander Hughes, disgyblion hynaf yr ysgol, a Mr Meic Francis, Cadeirydd y Llywodraethwyr, lun i Mr Jones ar ran Ysgol Llanilar i ddiolch iddo am ei gefnogaeth a'i gyfraniad tuag at ddatblygiad yr ysgol. Comisiynwyd y llun yn arbennig iddo gan yr artist Rhiannon Roberts.

Estynnwn ein cydymdeimlo i Mrs Mair Jones.

In February, Anya Ellis and Xander Hughes, the school's oldest pupils, and Mr Meic Francis, Chair of Governors, presented Mr Jones with a picture on behalf of Ysgol Llanilar to thank him for his support and contribution to the development of the school. The painting was specially commissioned for him by artist Rhiannon Roberts.

We extend our condolences to Mrs Mair Jones.

Newyddion o'r ystafell athrawon / News from the staff room

Hoffwn longyfarch Miss Beci Roberts ar dderbyn swydd yn Ysgol Hamadryad, Caerdydd. Fe fydd Miss Roberts yn cychwyn ym mis Medi a dymunwn pob llwyddiant iddi ar ei hantur newyd yn y brifddinas.

We would like to congratulate Miss Beci Roberts on receiving a new teaching post at Ysgol Hamadryad, Cardiff. Miss Roberts will start in September and we wish her every success on her new adventure in the capital city.

Dyddiadau / Dates

Dyma rai dyddiadau i'ch dyddiaduron. Fe wnewn ein gorau glas i gadw at y dyddiadau yma ond ymddiheuriadau os fydd rhai dyddiadau yn newid.

Here are some initial dates for the next term. We shall try to ensure that these dates are kept but there might be some inevitable changes to the dates printed below.

Dyddiadau Pwysig Tymor yr Haf 2022

Summer Term 2022 Important Dates

Digwyddiad	Dyddiad Date	Event
Casgliad Bags 2 Schools	27/4/22	Bags 2 Schools collection
Twrnament Peldroed Bl 6	28/4/22	Football Tournament Year 6
Gwyl y Banc	02/5/22	**Bank Holiday**
Noson Agored - Cyfle i chi drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athrawes ddosbarth. Bydd rhestr o amseroedd ar gael wrth ddrws y neuadd o ddydd Mercher 27/4/22. Dewiswch amser sydd yn gyfleus i chi os gwelwch yn dda.	11/5/22	**Parents' Evening** - An opportunity for you to discuss your child's progress with their class teacher. A list of appointments will be displayed by the hall door from 27/4/22. Please select a time that is convenient for you.
Hanner Tymor	30/5/22	Half Term
Côr yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych	30/5/22	School Choir competing in the Urdd Eisteddfod
Blwyddyn 6 – Gwersyll yr Urdd, Glanllyn	21/6/22 – 22/6/22	**Year 6 – Urdd, Glanllyn**
Diwrnod HMS	01/7/22	**INSET day**
Diwrnod olaf y tymor	15/7/22	Last day of term

Fe fyddwn yn trefnu Mabolgampau yn ystod y tymor yma hefyd. Dyddiad i'w gadarnhau.

We will be organising Sports Day in the term. Date to be confirmed.

Diolch yn fawr am bob cefnogaeth */ Thank you for your continued support,*

Mrs Jan Jone